

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynghori eraill ar faterion darlledu a darllediad technegol i'r ansawdd disgwylidig.

Mae'r safon hon yn berthnasol i amrywiaeth o systemau darlledu a chyfryngau gan gynnwys gweithrediad stiwdio, darlledu allanol, ôl-gynhyrchu, dosbarthiad a darllediad. Gellir rhoi cyngor i gydweithwyr technegol neu annhechnegol a gall fod yn gysylltiedig â gosod, gweithredu neu gynnal a chadw offer a systemau darlledu a chyfryngau.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gweithio fel peirianwyr systemau darlledu a chyfryngau.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. ymchwilio i a chael gafael ar wybodaeth cyn rhoi cyngor
2. dewis a chynghori ar y datrysiad technegol mwyaf effeithiol yn unol â chyfyngiadau cynhyrchu
3. rhoi cyngor i bobl berthnasol yn dilyn amserlenni a gofynion
4. dewis a defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n cwrdd ag anghenion y rheiny sy'n derbyn cyngor
5. defnyddio lefel o derminoleg dechnegol sy'n cwrdd â dealltwriaeth dechnegol y person sy'n derbyn cyngor
6. defnyddio gwybodaeth ategol i egluro unrhyw gyngor pan y bydd angen
7. gwirio bod pobl yn deall y cyngor rydych chi'n ei roi a goblygiadau dilyn y cyngor hwnnw
8. awgrymu deunyddiau, offer a sgiliau fydd eu hangen i ddilyn y cyngor
9. gwirio bod unrhyw gyngor yn cydymffurfio gyda rheoliadau a chanllawiau perthnasol
10. adolygu'r cyngor gaiff ei roi yn erbyn problemau gaiff eu codi ac addasu'r dull lle bo angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben, manteision, cyfyngiadau a risgiau'r offer a meddalwedd sydd eu hangen ar gyfer systemau darlledu a chyfryngau
2. rhagofalon diogelwch penodol i'w dilyn wrth weithio gydag offer, meddalwedd a systemau darlledu
3. sut i weithio'r offer, meddalwedd a systemau darlledu sydd eu hangen
4. y diben a'r protocolau sy'n gysylltiedig â chyfeirio gan ddefnyddio IP
5. egwyddorion dyluniad, pensaernïaeth, datblygiad a chynhaliaeth rhwydweithiau
6. sut i gysylltu systemau ac offer darlledu a chyfryngau gyda systemau rhwydwaith
7. mathau o broblemau all godi wrth weithredu systemau darlledu a chyfryngau a pham ei fod yn bwysig eu datrys yn brydlon
8. yr offer a'r technegau datrys problemau gaiff eu defnyddio i adnabod a chywiro achosion diffygion mewn offer, meddalwedd a systemau darlledu
9. prosesau'r sefydliad ar gyfer sicrhau diogelwch ymarferol a diogelwch rhwydwaith data a systemau
10. sut i sicrhau cyflenwad trydan di-dor
11. safonau archwilio cyfredol a safonau darparu proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol a datganiadau o arferion gorau
12. rheoliadau, canllawiau, gweithdrefnau a systemau cwmni perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a darlledu a sut i gael gwybodaeth amdanynt
13. sut i adnabod pwy ddylid rhoi cyngor iddynt a phwysigrwydd rhoi cyngor mewn pryd
14. sut i egluro datrysiad a'i sail resymegol a gwirio dealltwriaeth eraill o'r cyngor a roddwyd
15. sut i bortredu ymddygiad cadarnhaol i eraill pan na fyddant yn deall eich cyngor yn syth
16. y mathau o wybodaeth ategol i roi eglurhad ac egluro'r manteision ac anfanteision
17. y gwahanol ddulliau cyfathrebu, eu manteision ac anfanteision a phryd i'w defnyddio
18. maint eich cyfrifoldeb eich hun ac i bwy dylech chi roi gwybod os oes gennych unrhyw broblem na allwch chi ei datrys

SKSBE12

Cynghori ar faterion technegol yn ymwneud ag offer, meddalwedd neu systemau darlledu a chyfryngau



---

<b>Datblygwyd gan</b>	ScreenSkills
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	30 Maw 2022
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	30 Maw 2026
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	ScreenSkills
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKSBE12
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Peiriannydd Darlledu, Peiriannydd Darlledu Allanol, Peiriannydd Stiwdio, Peiriannydd Prosiect, Peiriannydd Ôl-gynhyrchu, Peiriannydd Lluniau, Peiriannydd Cynnal a Chadw Darlledu, Peiriannydd Darllediad
<b>Cyfes/Set</b>	Peirianeg Systemau Darlledu a Chyfryngau
<b>Geiriau Allweddol</b>	darlledu; peirianeg; technegol; cynhyrchu; cyngor; cefnogaeth;

---